

## GWYBODAETH I YMWELWYR

Mae gan Hiraethog ddewis gwych o lefydd i aros, o wersylla yn yr awyr agored, neu fwynhau cysuron gwesty gwely a brechwast.

## VISITOR INFORMATION

Whether you wish to camp in the great outdoors, or if you are looking for some home comforts in a B&B, Hiraethog offers a great choice of places to stay.

I gael rhagor o wybodaeth am lefydd i aros a bwyta, atyniadau lleol a phethau i'w gwneud, ewch i:

For information about accommodation, places to eat, local attractions and things to do, please visit:

[www.hiraethog.org.uk](http://www.hiraethog.org.uk)

## Canolfannau Croeso Tourist Information Centres

Betws-y-coed: 01690 710426  
Llandudno: 01492 577577  
Conwy: 01492 577566  
Llangollen: 01978 860828  
Rhy: 01745 344515

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig  
Llyn Brenig Visitor Centre  
Ffôn / Telephone: 01490 420463



I lawrlwytho copi o'r daflen hon, sganiwch y còd QR: neu ewch i [www.hiraethog.org.uk](http://www.hiraethog.org.uk)



To download a copy of this leaflet, please scan the QR code: or visit [www.hiraethog.org.uk](http://www.hiraethog.org.uk)

Rhoddir trwydded ddrymiadwy nad yw'n gyfyngedig, heb freindal, i chi weld y Data Trwyddedig ar gyfer defnydd anfasnachol yn unig, o'r cyfnod y bydd ar gael gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Ni chewch gopio, is-dwyddedu, dosbarthu, gwerthu neu fel arall drefnu bod y Data Trwyddedig ar gael mewn unrhyw ffurf i drydydd partion; a Neilltuir hawliau trydydd parti i orfodi telerau'r drwydded hon i'r Arolwg Ordnans.

You are granted a non-exclusive, royalty free, revocable licence solely to view the Licensed Data for non-commercial purposes for the period during which Conwy County Borough Council makes it available; You are not permitted to copy, sub-license, distribute, sell or otherwise make available the Licensed Data to third parties in any form; and Third party rights to enforce the terms of this licence shall be reserved to Ordnance Survey.



Chwe taith unffordd a chwe taith gylch drwy bentrefi prydferth cefn gwlad  
Six linear and six circular routes leading you through picturesque rural villages

## CLUDIANT CYHOEDDUS

Ar fws: [www.traveline-cymru.org.uk](http://www.traveline-cymru.org.uk)  
Traveline Cymru: 0871 200 22 33

## MWY O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

[www.conwy.gov.uk/teithiaucerdded](http://www.conwy.gov.uk/teithiaucerdded)

## MWY O DEITHIAU CERDDED YN SIR DDINBYCH

[www.denbighshirecountryside.org.uk](http://www.denbighshirecountryside.org.uk)

Mae Hiraethog yn ardal amaethyddol; mae'r llwybrau cyhoeddus hyn yn croesi ardaloedd lle mae defaid a gwartheg yn pori. Mae arwyddion wedi eu gosod ar bob llwybr ac mae'n bosibl y bydd angen croesi camfeydd, tir anwastad a llefydd gwlyb. Byddwch yn barod; rhaid gwisgo sgidiau a dillad addas i gerdded drwy gydol y flwyddyn.

Gan fod llawer o'r llwybr yn mynd trwy dir diarffordd, dylech fund â digon o fwyd a diod efo chi am y dydd.

**Sylwch:** Braslun yw'r map hwn yn unig - defnyddiwch y mapiau Arolwg Ordnans perthnasol i ddilyn Llwybr Hiraethog.

## PUBLIC TRANSPORT

By bus: [www.traveline-cymru.org.uk](http://www.traveline-cymru.org.uk)  
Traveline Cymru: 0871 200 22 33

## MORE WALKS IN CONWY

[www.conwy.gov.uk/walks](http://www.conwy.gov.uk/walks)

## MORE WALKS IN DENBIGHSHIRE

[www.denbighshirecountryside.org.uk](http://www.denbighshirecountryside.org.uk)


Hiraethog is a farming region; these public footpaths cross areas where sheep and cattle will be grazing. All routes are waymarked and may cross stiles, uneven ground and wet areas. Be prepared; suitable footwear and clothing are essential for walking throughout the year.

This route passes through remote terrain. Please carry all the food and drink you need for the day.

**Note:** This route map is indicative only - please carry the necessary OS maps to follow the Hiraethog Trail.



# Llwybr HIRAETHOG Trail



Llwybr hir ar draws 40 milltir o dirwedd prydferth Cymru

A long-distance trail over 40 miles of beautiful Welsh landscape

## Y Còd Cefn Gwlad

**Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch**

### Parchwch bobl eraill

- Meddyliwch am gymuned yr ardal ac am y bobl eraill sy'n mwynhau'r awyr agored
- Gadewch glwydi ac eiddo fel yr oedden nhw ac arhoswch ar y llwybrau oni bai fod mynediad agored ar gael

### Diogelwch yr amgylchedd naturiol

- Peidiwch â gadael unrhyw arwydd eich bod wedi bod yno, ac ewch â'ch sbwriel gyda chi
- Cadwch gŵn dan reolaeth effeithiol

### Mwynhewch a gwnewch yn siŵr eich bod yn saff

- Cynlluniwch eich taith a byddwch yn barod am unrhyw beth annisgwyl
- Dilynwch y cyngor a'r arwyddion lleol

## Please follow The Countryside Code

**Respect • Protect • Enjoy**

### Respect other people

- Consider the local community and other people enjoying the outdoors
- Leave gates and property as you find them and follow paths unless wider access is available

### Protect the natural environment

- Leave no trace of your visit and take your litter home
- Keep dogs under effective control

### Enjoy the outdoors and stay safe

- Plan ahead and be prepared
- Follow advice and local signs



Darganfod  
Discover

# HIRAETHOG

Mae Hiraethog yn ardal o dirluniau hynafol, ucheldiroedd o rostiroedd grug, coetiroedd cysgodol, llynnoedd trawiadol a choedwigoedd mawreddog. Mae yma filltiroedd o lwybrau a lonydd y gallwch deithio arnynt ar droed, beic neu geffyl.

Hiraethog is a region of ancient landscapes, upland heather moors, shaded woodlands, stunning lakes and majestic forest backdrops. There are miles of trails and tracks, which can be explored by foot, bike or horse.

- Golygfeydd godidog  
Breathtaking scenery
- Llwybrau cerdded a beicio  
Cycle routes and walks
- Bywyd gwyllt  
Wildlife and habitats
- Antur awyr agored  
Outdoor adventure
- Trysorau hanesyddol  
Historic treasures
- Cartio, pysgota plu a hwylio  
Karting, fly fishing and sailing



# Teithiau Llinellol



# Linear Walks

1

## Pentrefoelas

Mae'r pentref ystad traddodiadol hwn yn fan cychwyn gwych i ddilyn Llwybr Hiraethog yng Nghonwy, gyda digon o le i barcio, cyfleusterau a dewis da o lefydd aros. Mae Pentrefoelas yn llawn hanes, o'r meini hirion a'r carneddau gerllaw, i'r chwedlau am y 'Tylwyth Teg'; a chartref hynafiaid un o'r Arlywyddion America! Mae'r parc ar lan yr afon yn leoliad hyfryd ar gyfer picnic ac mae digon o gylchdeithiau i'w mwynhau.

### Cadwch lygad am...

*Carreg Levelinus – cofadail aysgrifedig yn coffâu Llywelyn Fawr. Dywedir i'r garreg gael ei chodi gan fynachod Aberconwy yn y 13eg ganrif i ddangos eu gwerthfawrogiad am rodd o dir.*

tua 13km / 8 m

2

## Cerrigydrudion

Mae pentref Cerrigydrudion ar ymyl deheuol Mynydd Hiraethog wedi chwarae rhan allweddol yn hanes yr ardal am ganrifoedd. Roedd y pentref yn ganolfan bwysig i'r porthmyn Cymreig, yn ogystal â man aros yn ystod y gwaith o adeiladu ffordd Thomas Telford, yr A5, o Lundain i Gaerdybi yn y 19eg ganrif. Mae Eglwys y Santes Fair yng nghanol y pentref ar agor bob dydd, ac mae hwb hanes a gwybodaeth ar gael i'ch helpu i wneud yn fawr o'ch ymweliad.

### Cadwch lygad am...

*Mae Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig ger Cerrigydrudion ac yno ceir llawer o gyfleusterau yn cynnwys beicio, pysgota, hwylio a nifer o lwybrau cerdded thematig.*

tua 7km / 4.5 m

3

## Llangwm

Saif pentref Llangwm yng nghanol ardal wledig hyfryd ac mae'n lle poblogaidd ymhlith cerddwyr, beicwyr a gwylwyr adar. Dilynwch y llwybr troed i fyny'r mynydd oddi ar Llwybr Hiraethog i gopa Foel Goch gan fwynhau golygfeydd anhygoel ar draws siroedd Dinbych, Gwynedd a Chonwy. Os ydych yn bwriadu cerdded o amgylch Llangwm, mae nifer o drysorau cudd i'w darganfod yma, yn cynnwys ceunant a rhaeadr Glyn Diffwys a phont Glyn Diffwys, lleoliad un o brotestiadau Rhyfel y Degwm yn 1887.

### Cadwch lygad am...

*Hen felin y pentref a oedd yn cynhyrchu trydan ar gyfer y pentref hyd y 1930au, ac os ydych am fentro i gyfeiriad Glyn Diffwys, chwiliwch am y plac ar y bont sy'n coffâu Merthyrion Rhyfel y Degwm yn Llangwm.*

tua 6.5km / 4 m

4

## Llanfihangel Glyn Myfyr

Mae'r pentref tlws hwn yn swatio mewn dyffryn bach, ar lannau Afon Alwen. Yn ôl yr hanes, ysgrifennodd William Wordsworth gerdd am Llanfihangel Glyn Myfyr pan ddaeth ar ymweliad ym 1824. Mae yma ardal bicnic hyfryd ar lan yr afon ac eglwys o'r 13eg ganrif sydd ar agor drwy'r flwyddyn. Mae cyfoeth o wybodaeth ar gael i ymwelwyr yn Eglwys Sant Mihangel gan roi cyfle i chi ddysgu mwy am hanes.

### Cadwch lygad am...

*Y Maen Cred, wrth i chi gyrraedd pentref Llanfihangel Glyn Myfyr o gyfeiriad Coedwig Clocaenog. Roedd y garreg hon o'r 17eg ganrif yn cyfeirio teithwyr blinedig at ffermdy cyfagos lle gallent orffwys cyn parhau â'u taith.*

tua 19.5km / 12.5 m

5

## Cyffylliog

Saif pentref tlws Cyffylliog yn nyffryn Clywedog. Bydd eich taith yn eich arwain drwy'r llwybrau coediog at Pincyn Llŷs. Codwyd y cofadail hwn ym 1830 gan 2il Arglwydd Bagot i goffâu plannu'r goedwig gonifferaidd wreiddiol. Ceir yma olygfeydd godidog o Fynydd Hiraethog a Bryniau Clwyd.

### Cadwch lygad am...

*Eglwys ganoloesol y Santes Fair a'r 'ty hers' anarferol o'r cyfnod Sioraidd a adeiladwyd ar gyfer y plwyf gan Edward Owen o Fachlwyd ym 1823.*

tua 7km / 4.5 m

6

## Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

Mae'n werth chweil treulio rhywfaint o amser yn darganfod y pentref bach hyfryd hwn. Ceir yma nifer o adeiladau hynafol yn cynnwys tafarn, elusendai, crochendy ac Eglwys Sant Dyfnog. Mae'r eglwys yn adnabyddus am ei ffenestr Coeden Jesse odidog ar agor i ymwelwyr drwy'r flwyddyn.

### Cadwch lygad am...

*Ffynnon Sant Dyfnog a leolir ger yr eglwys, ewch trwy'r giât yn y fynwent. Mae'r ffynnon mewn coedlan ac os ydych yn hoffi ffotograffiaeth, mae'n lle delfrydol i dynnu lluniau hyfryd.*

1

## Pentrefoelas

This traditional estate village offers a great starting point to the Hiraethog Trail in Conwy, with ample parking, amenities and a good range of accommodation. Pentrefoelas is steeped in history, from the nearby standing stones and cairns, to the legends of the 'Fair Folk', and even the ancestral home of an American President! The riverside park is a lovely location for a picnic, and there are a number of circular walks to enjoy.

### Look out for...

*The Levelinus Stone – an inscribed monument dedicated to Llywelyn the Great. The stone was erected by the monks of Aberconwy in the 13th century to show their appreciation for a gift of land.*

approx. 13km / 8 m

2

## Cerrigydrudion

Situated on the southern edge of Mynydd Hiraethog, the village of Cerrigydrudion has been pivotal in the area's history for hundreds of years. The village was a major centre for the Welsh cattle drovers, as well as a staging post during the construction of Thomas Telford's A5 road from London to Holyhead in the 19th century. The medieval Church of St Mary Magdalene in the centre of the village is open daily, and contains a history hub and information to help you make the most of your visit.

### Look out for...

*The Llyn Brenig Visitor Centre is near Cerrigydrudion, with extensive facilities including cycling, fishing, sailing and a number of themed walking trails.*

approx. 7km / 4.5 m

3

## Llangwm

Popular with walkers, cyclists and birdwatchers, Llangwm is surrounded by stunning countryside. A footpath leading upland off the Hiraethog Trail will take you up to the summit of Foel Goch, which offers amazing views over the three counties of Denbighshire, Gwynedd and Conwy. If you are planning a number of walks around Llangwm, there are a few hidden gems near here, including Glyn Diffwys gorge and waterfall, and the Glyn Diffwys bridge, which was the scene of an uprising against the tithe taxes in 1887.

### Look out for...

*The old village mill, which provided electricity for the village until the 1930s; and if you are venturing near Glyn Diffwys, look out for the plaque commemorating the Tithe Martyrs of Llangwm, which is located on the bridge.*

approx. 6.5km / 4 m

4

## Llanfihangel Glyn Myfyr

This pretty village nestles in a small valley, on the banks of the River Alwen. It is said that William Wordsworth wrote a poem about Llanfihangel Glyn Myfyr when he visited here in 1824. The village boasts a picturesque riverside picnic area and a 13th-century church, which is open throughout the year. St Michael's Church has a wealth of information available for visitors, helping you to find out more about the history of the community and its features.

### Look out for...

*The Maen Cred stone as you approach the village of Llanfihangel Glyn Myfyr from the Clocaenog Forest. This 17th-century stone helped direct weary travellers to a nearby farm where they could rest before continuing their journey.*

approx. 19.5km / 12.5 m

5

## Cyffylliog

The quaint village of Cyffylliog is situated in the Clywedog Valley. Your journey will take you across woodland tracks and you will emerge to reach Pincyn Llŷs. This monument was erected by the 2nd Lord Bagot in 1830 to commemorate the planting of the original conifer forest, and offers stunning views across Hiraethog and the Clwydian Range.

### Look out for...

*The medieval church of St Mary's with its unusual Georgian 'hearse house', built for the parish by Edward Owen of Fachlwyd in 1823.*

approx. 7km / 4.5 m

6

## Llanrhaeadr-yng-Nghinmeirch

It is well worth taking some time to explore this lovely little village. The ancient buildings you will come across include an inn, almshouses, a pottery, and the Church of St Dyfnog, which is famous for its magnificent Jesse Window. The church is open and welcomes visitors throughout the year.

### Look out for...

*St Dyfnog's Well, which is situated near the church, with access via a gate in the churchyard. The well is situated in a copse and if you like photography, it is an ideal place to take some beautiful photographs.*